

TEITL Y SWYDD  
BAND

4

Ymarferydd Radiograffeg Cynorthwyol

Crynodeb o'r Swydd

- Gweithredu fel gweithredwr IR(ME)R. Gwneud penderfyniadau annibynnol ar osod cleifion yn yr ystum cywir a ffactorau cysylltiad i gynhyrchu delweddau radiograffig diagnostig o ansawdd uchel o fewn cwrpas ymarfer diffiniedig sy'n cael ei yrru gan brotocol.
- Defnyddio offer radiograffeg diagnostig cymhleth yn ddiogel, a chydymffurfio â'r holl ganllawiau cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud â diogelwch ymbelydredd.
- Gweithio ochr yn ochr â Radiograffwyr cofrestredig i gefnogi darparu gwasanaethau delweddu, gan sicrhau bod pob claf yn cael y gofal gorau posibl. Er y byddwch o bosib yn gweithio'n bennaf o fewn gwasanaethau ffilm blaen, efallai y byddwch yn cefnogi archwiliadau o fewn y gwasanaeth fflworosgopeg yn unol ag anghenion y gwasanaeth.

Yn gyfrifol i'r

Yn gyfrifol o ran adrodd i'r:

Yn atebol i'r:

Yn atebol yn broffesiynol i'r:

Cyfrifoldebau a Dyletswyddau

Cynllunio a Dylunio

Cynnal gwasanaethau o ddydd i ddydd effeithiol ac effeithlon o fewn eich maes gwaith eich hun, rheoli rhestrau gwaith, sicrhau bod ceisiadau delweddu ar gael cyn i gleifion ddod i'r ysbyty (lle bo angen). Achub y blaen trwy sicrhau bod digon o stoc o nwyddau traul i helpu i sicrhau bod amseroedd apwyntiadau yn aros ar amser.

Blaenoriaethu cleifion wrth weithio mewn meysydd sy'n gweithredu system apwyntiadau agored neu wasanaeth galw heibio, gan barhau i fod yn ystyriol o weithwyr proffesiynol eraill a all ofyn am ddelweddu brys i benderfynu ar y driniaeth fwyaf priodol ar unwaith a gofal y claf yn y dyfodol.

Gwella a Monitro

Cefnogi a chymryd rhan mewn prosesau archwilio adrannol, naill ai'n unigol neu fel rhan o dîm i gefnogi gwelliannau i wasanaethau. Cynnig newidiadau a allai wella ansawdd y gwasanaeth a chodi pryderon pan fyddwch yn teimlo bod ansawdd yn cael ei beryglu/ y gallai ansawdd gael ei beryglu.

## **Cyfathrebu**

Cyfarch cleifion, cynnal gwiriadau adnabod a diogelwch gofynnol, cael cydsyniad ar sail gwybodaeth, ac esbonio pob agwedd ar y broses delweddu a chanlyniadau mewn modd pwylllog a sensitif.

Addasu dulliau cyfathrebu i anghenion unigolion, bod yn ymwybodol y gall cleifion fod yn bryderus neu mewn poen a allai effeithio ar gyfathrebu.

Defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu geiriol a di-eiriau i gyfathrebu'n effeithiol â staff, cleifion, gofalwyr ac ymwelwyr i oresgyn rhwystrau cyfathrebu h.y. gwahaniaethau diwylliannol, rhwystrau iaith, amhariad ar y synhwyr, neu anawsterau ffisiolegol.

Darparu cefnogaeth i gleifion a allai gael newyddion gofidus, a chymryd yr amser i egluro unrhyw apwyntiadau neu archwiliadau dilynol.

Sicrhau bod yr holl gleifion, gofalwyr a staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw oedi annisgwyl. Cefnogi llif cleifion trwy sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n gywir.

Cyfathrebu'n rheolaidd a datblygu perthnasoedd gwaith gyda thîm amlddisgyblaethol i gyfrannu at redeg gwasanaethau radioleg yn effeithlon, gan gynnwys cysylltu â chleifion, wardiau ac adrannau eraill wyneb yn wyneb a thros y ffôn i drefnu archwiliadau a threfnu unrhyw baratodau angenrheidiol fel y nodir gan staff cofrestredig.

Ymateb yn briodol i ymholiadau arferol ac anarferol, gan gymryd camau lle y bo'n briodol neu eu huwchgwyfeirio at ymarferwyr cofrestredig.

Meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi datrys gwrthdaro a chwynion llafar.

## **Clinigol**

Cyflawni'r wybodaeth, y sgil a'r cywirdeb sydd eu hangen i gyflawni'r holl ddyletswyddau sy'n ymwneud â chael delweddau ffilm blaen diagnostig o'r frest, yr abdomen, y sgerbwdd echelinol a'r sgerbwdd atodol. Gallu addasu techneg, ystum, a pharamedrau cysylltiad fel y bo'n briodol ar gyfer y claf.

Cefnogi archwiliadau fflworosgopeg arferol a yrrir gan brotocol gan ddefnyddio offer statig megis astudiaethau GI. Gweithio ochr yn ochr ag Uwch Ymarferydd neu glinigydd cofrestredig priodol arall sydd â hawl i ddefnyddio offer fflworosgopeg.

Gweithredu fel gweithredwr o dan IR(ME)R, sy'n gyfrifol am ddefnyddio offer drud a chymhleth iawn sy'n ofynnol ar gyfer ystod o weithdrefnau delweddu.

Sicrhau y gellir cyfiawnhau pob cais delweddu, naill ai wyneb yn wyneb gan ymarferydd IR(ME)R, neu drwy ddogfennau llywodraethu ysgrifenedig a yrrir gan brotocol.

Gwneud yn siŵr eich bod yn dewis y claf, yr archwiliad, y protocolau caffael, y ffactorau cysylltiad, a'r synhwyrdd cywir cyn cymryd delwedd.

Asesu'ch delweddau eich hun ar gyfer ansawdd ac addasrwydd diagnostig, gweithredu'n unol â chwmpas ymarfer Ymarferwyr Cynorthwyol a'r hawl i ail gymryd delweddu a cheisio cyngor a chymorth gan Radiograffwyr cofrestredig pan fo ansawdd diagnostig wedi'i leihau neu pan nodir canfyddiadau brys/ annisgwyl.

Gweithio o dan oruchwyliaeth uniongyrchol, anuniongyrchol neu o bell fel sy'n briodol i lefel profiad ac yn unol â chanllawiau awdurdod dirprwyedig cenedlaethol a lleol ac asesiadau risg. (Pan fydd deiliad y swydd yn gweithredu o dan oruchwyliaeth o bell, bydd systemau ar waith i sicrhau bod Radiograffydd cofrestredig yn gallu gweld delweddau a gymerwyd gan yr Ymarferydd Cynorthwyol a'i fod ar gael i roi cyngor a/neu ymyrryd yn ôl yr angen.)

Sicrhau bod y delweddau a gynhyrchir yn cael eu hadolygu gan ymarferydd cofrestredig priodol. Gallai hwn fod yn Radiograffydd mewn achosion pan fydd y claf yn dychwelyd adref, neu'n ymarferydd/clinigwr cofrestredig arall pan fo'r claf yn dychwelyd ar unwaith i'w ofal am adolygiad a thriniaeth.

Gosod a thynnu canwlâu mewnwythiennol, a fflysio â dyfeisiau halwynog wedi'u llenwi ymlaen llaw.

Paratoi offer ar gyfer rhoi meddyginiaethau mewnwythiennol / cyferbyniad gan staff cofrestredig lle bo mecanweithiau cyfreithiol yn caniatáu hynny, a gweithredu fel ail wiriwr pan fydd y rhain i'w rhoi gan ymarferydd cofrestredig.

Gweinyddu meddyginiaethau/cyferbyniad drwy'r geg ar ôl iddynt gael eu cyflenwi gan ymarferydd cofrestredig pan fo mecanweithiau cyfreithiol yn caniatáu hynny.

Cynnal a chefnogi eraill gyda chodi a chario cleifion, gan ddefnyddio cymhorthion priodol yn ôl yr angen.

Gweithio bob amser o fewn cwmpas ymarfer Ymarferydd Cynorthwyol a sicrhau cydweithrediad â Radiograffydd cofrestredig yn ôl yr angen.

Ymgymryd â dyletswyddau clinigol neu weinyddol eraill o fewn cylch gorchwyl Ymarferydd Cynorthwyol ac fel y'u dirprwyir gan staff cofrestredig.

### **Anghlinigol**

Cynnal eich diogelwch eich hun a diogelwch cleifion a staff eraill wrth weithio mewn ardaloedd cyfyngedig neu reoledig, gan gadw at yr holl reolau lleol, rheoliadau ymbelydredd a diogelwch a sicrhau y defnyddir bathodynau dosimedr yn gywir.

Ymgymryd â phrosesau Sicrhau Ansawdd/Rheoli Ansawdd diffiniedig ar offer yn unol â hyfforddiant, cofnodi canlyniadau, cymryd camau priodol ar unwaith pan fydd canlyniadau y tu allan i'r goddefiannau penodol a rhoi gwybod am y rhain i aelod cofrestredig o staff yn ddi-oed.

Cynnal glendid offer delweddu statig a symudol, ategolion, ac amgylcheddau gan ddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a deunyddiau glanhau priodol.

Symud offer delweddu symudol a choiliau MRI, cymryd gofal i gadw cywirdeb swyddogaethol trwy drin yn ofalus, adrodd am unrhyw ddamweiniau neu bryderon yn brydlon a chynnal unrhyw wiriadau swyddogaethol a ddirprwywyd gan staff cofrestredig.

Cefnogi cynnal a chadw offer prosesu ac offer cysylltiedig, hysbysu staff cofrestredig am unrhyw ddiffygion a chysylltu â pheirianwyr yn ôl yr angen.

Yn gallu adnabod pryderon diogelu, gan ddechrau gweithdrefnau a ddirprwyir gan staff cofrestredig pan fo'n briodol.

Cynnal dull hyblyg, gan ddeall y gall gofynion gwasanaeth ofyn am newidiadau i rotâu cynlluniedig neu weithio ar draws safleoedd.

### **Cyllid a Chyllideb**

Sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau trwy ddefnyddio stoc yn nhrefn dyddiad. Gwneud yn siŵr bod ceisiadau am archebu cyflenwadau ychwanegol yn cael eu cyfeirio at y person(au) priodol gyda digon o rybudd i sicrhau argaeledd parhaus.

### **Rheoli, Arwain a/neu Hyfforddi**

Cefnogi a chymryd rhan mewn hyfforddiant ac asesiadau Ymarferwyr Cynorthwyol dan hyfforddiant a Myfyrwyr Radiograffeg. Darparu mentoriaeth a rhoi adborth yn ôl yr angen.

Cefnogi ymsefydlu a hyfforddi Gweithwyr Cymorth Clinigol Radioleg sydd newydd eu cyflogi yn eu maes gwaith eu hunain.

Ymgymryd â hyfforddiant lleol yn ôl yr angen, megis ar offer newydd, protocolau gosod neu ddelweddu, neu archwiliadau fflworosgopig o fewn cylch gwaith Ymarferwyr Cynorthwyol.

Cymryd rhan mewn adolygiadau datblygu blynyddol a sicrhau bod portffolio DPP yn cael ei gynnal.

Mae ennill achrediad fel Ymarferydd Cynorthwyol gan y Gymdeithas Radiograffwyr a'i gynnal yn barhaus yn wirfoddol, ond mae'n cael ei annog, a darperir cymorth rheoli yn erbyn y cais.

### **Digidol a Gwybodaeth**

Dilyn yr holl brosesau ar gyfer atgyfeirio, apwyntiadau, cyfiawnhad, awdurdodi, ac adrodd ar lwybrau cleifion, gan sicrhau y ceisir arweiniad a chyngor gan Radiograffydd cofrestredig lle bo angen.

Cofnodi gwybodaeth archwilio yn gywir i gynnwys dos ymbelydredd, gweithredwr, ymarferydd, a'r holl wybodaeth ofynnol arall mewn Systemau Gwybodeg Radioleg, gan ddilyn prosesau mewnol lle mae angen diwygiadau i gyfrannu at gywirdeb parhaus cofnodion cleifion. Sicrhau bod yr holl archwiliadau wedi'u cwblhau a'u bod yn hygyrch ar systemau PACS i hwyluso adroddiadau amserol gan staff cofrestredig. Cyrchu meddalwedd megis Systemau Gwybodeg Radioleg, System Rheoli Cleifion, Porth Clinigol Cymru i sicrhau bod unrhyw ganlyniadau cyn triniaeth gofynnol ar gael i staff cofrestredig. Tynnu sylw at unrhyw achosion pan nad yw'r rhain ar gael er mwyn lleihau oedi i gleifion.

### **MANYLEB Y PERSON**

#### **Cymwysterau a Gwybodaeth**

##### **Hanfodol**

Cymhwyster Ymarferydd Cynorthwyol (Delweddu Clinigol) Lefel 4 neu gyfwerth.

##### **Dymunol**

Cymorth Delweddu Clinigol Lefel 3 /Cymorth Gofal Iechyd Clinigol neu gymhwyster arall sy'n gysylltiedig ag iechyd.

#### **Profiad**

##### **Hanfodol**

Profiad blaenorol mewn amgylchedd gofal iechyd neu radioleg.

##### **Dymunol**

Profiad blaenorol fel Gweithiwr Cymorth Clinigol Radioleg.

#### **Sgiliau a Phriodoleddau**

Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig da a thystiolaeth o sgiliau cyfrifiadurol.

Dull gofalgarg ac empathetig, y gallu i ddelio â sefyllfaoedd trallodus.

Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm.

Trefnus a gallu parhau i ganolbwyntio a pheidio â chynhyrfu o dan bwysau ac mewn amgylcheddau prysur.

Cymhelliant a pharod i ddysgu mewn amgylchiadau addysgol a chlinigol, chwilio am ddysgu, derbyn cyfarwyddyd a rhoi/derbyn adborth gwrthgyferbyniol.

Mae Sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar lefelau 1 i 5 o ran deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

## Arall

Cliriad Boddhaol Safonol/Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan gynnwys gwiriad Rhestr Waharddedig Oedolion/Plant Dehurwydd llaw a chysymud llaw-llygad er mwyn gosod cleifion yn yr ystum cywir ar gyfer delweddu.

Yn gallu symud a thrin offer a chynorthwyo gyda chodi a chario cleifion.

Yn gallu teithio rhwng safleoedd o fewn y Bwrdd Iechyd mewn modd amserol.

Yn gallu gwneud gwaith sifft yn ôl yr angen e.e. dyddiau/ nosweithiau/penwythnosau.